

Monitro biotocsinau a ffytoplancton

Risgiau biotocsinau a ffytoplancton morol sy'n heintio pysgod cregyn, a'r camau y gall busnesau bwyd eu cymryd.

Mae biotocsinau morol yn sylweddau gwenwynig sy'n gallu cronni o fewn meinweoedd (tissues) molysgiaid dwygragenog byw. Gall hyn fod o ganlyniad i fwydo ar ffytoplancton sy'n cynhyrchu biotocsinau.

Ar hyn o bryd, mae tri grŵp o biotocsinau sy'n cael eu rheoleiddio ar gyfer pysgod cregyn. Gall y rhain achosi:

- gwenwyn pysgod cregyn parlysol (PSP)
- gwenwyn pysgod cregyn amnesig (ASP)
- gwenwyn pysgod cregyn diaretig (DSP) a achosir gan docsinau lipoffilig

Mae'r broses o fonitro biotocsinau morol yn nodi a oes risg gynyddol o bysgod cregyn yn cael eu halogi.

Mae'n caniatáu i fusnesau gymryd camau priodol i sicrhau bod y pysgod cregyn y maent yn eu rhoi ar y farchnad yn ddiogel i'w bwyta.

Pan ddarganfyddir biotocsinau mewn pysgod cregyn mewn lefelau uwch na'r terfyn cyfreithiol, rydym ni a'ch awdurdod lleol yn gweithredu i sicrhau bod yr ardaloedd dan sylw yn cael eu cau o ran cynaeafu.

Risgiau biotocsinau morol

Mae'r rhywogaethau hyn yn bwydo drwy hidlo (filter feeders) neu'n bwydo'n gyfan gwbl ar greaduriaid sy'n bwydo drwy hidlo. Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o godi a chronni biotocsinau neu halogion bacteriol.

Gall bwyta pysgod cregyn sydd wedi'u halogi â'r biotocsinau hyn arwain at salwch difrifol. O'r herwydd, o ardaloedd cynhyrchu cymeradwy yn unig y gellir cynaeafu'r rhywogaethau hyn yn fasnachol. Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf biotocsinau a microbiolegol.

Lefelau biotocsinau

Dyma'r lefelau uchaf o biotocsinau a ganiateir mewn pysgod cregyn:

- PSP ar 800 microgram/cilogram o saxitoxin (STX)
- ASP ar 20 miligram/cilogram o asid domoic (DA)

Mae DSP yn cael ei achosi gan grŵp o docsinau Lipoffilig, a dyma'r lefelau:

- OA/DTXs/ Pectenotoxins (PTXs) ar 160 microgram o gyfwerth asid Okadaic/cilogram
- Yessotoxinau (YTXs) yr 3.75 miligram o gyfwerth yessotoxin/cilogram
- Azaspirasidau (AZAs) ar 160 microgram o gyfwerth azaspiracid/cilogram
- DSP sy'n gymwys ar gyfer rhywogaethau na brofir gan LC-MS – ni ddylai tocsinau DSP fod yn bresennol

Pwysig

Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yng nghanllawiau'r ASB

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Daeth deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd pan ymadawodd y DU â'r UE yn gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau'r ASB sydd ag 'UE' neu 'CE' yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny'n gymwys i Brydain Fawr. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at 'Gyfraith yr UE a Ddargedwir' neu 'REUL' fel cyfeiriadau at gyfraith a gymathwyd.

Yn achos busnesau sy'n symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae gwybodaeth am [Fframwaith Windsor](https://gov.uk) ar gael ar GOV.UK.

Mabwysiadwyd Fframwaith Windsor gan y DU a'r UE ar 24 Mawrth 2023. Mae'r Fframwaith yn darparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif cynhyrchion manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ganiatáu i safonau Prydain Fawr o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, marchnata a deunyddiau organig fod yn gymwys i nwyddau manwerthu wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gaiff eu symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).

[Protocol ar gyfer casglu a chludo samplau pysgod cregyn ar gyfer Cymru a Lloegr](#) (PDF ar Cefas.co.uk 470.7 KB)

Pecynnau profi am fiotocsinau ar gyfer y diwydiant

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth am becynnau profi sydd ar gael i weithredwyr busnesau bwyd a chyingor ar sut i gynnal Profion Cynnyrch Terfynol (*Saesneg yn unig*).

Monitro ffytoplancton

Mae rhai mathau o ffytoplancton yn algâu sy'n cynhyrchu tocsinau.

Cesglir samplau d?r o safleoedd dethol o fewn ardaloedd tyfu pysgod cregyn dosbarthedig, a chânt eu dadansoddi ar gyfer gwahanol rywogaethau o ffytoplancton gan gynnwys:

- Alexandriwm
- Dinoffysis
- Pseudo-nitzchia

Mae monitro am ffytoplancton yn rhoi rhybudd cynnar o ddigwyddiadau tocsig. Gall hefyd eich helpu i wneud penderfyniadau ar weithgareddau monitro ychwanegol.

Northern Ireland

PDF

[Gweld Protocol for sampling and transport of water samples for Northern Ireland as PDF\(Open in a new window\)](#) (141.99 KB)

[Protocol ar gyfer casglu a chludo d?r yng Nghymru a Lloegr](#) (PPDF ar Cefas.co.uk 271 KB)

Cynaeafu mewn crynodiadau uchel o Ffytoplancton

Mae angen i chi gymryd y rhagofalon angenrheidiol os ydych chi am gynaeafu ardaloedd â chyflyrau lefel rhybudd.

Dyma'r lefelau rhybudd am grynodiad ffytoplancton ar gyfer pob rhywogaeth:

- Alexandriwm (Saxitocsin) – mwy na neu cyfartal â 40 cell/litr o Alexandriwm (cyfrifol am PSP)
- Dinoffysis (Asid Okadaic) – mwy na neu cyfartal â 100 cell/litr o Dinoffysis, a data hanesyddol (cyfrifol am DSP)
- Pseudo-nitzschia (Asid Domoic) – mwy na neu cyfartal â 150,000 cell/litr o Pseudo-nitzschia, a data hanesyddol (cyfrifol am ASP)

Canlyniadau biotocsinau a ffytoplancton

Mae canlyniadau biotocsinau a ffytoplancton ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu cadw ar ein gwefan ddata bwrpasol, yn ogystal â chan CEFAS.

- [Canlyniadau biotocsinau ar gyfer Cymru a Lloegr \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Canlyniadau biotocsinau ar gyfer Gogledd Iwerddon](#)
- [Canlyniadau ffytoplanctonau at gyfer Gogledd Iwerddon](#)
- [Amserlenni samplu biotocsin ar gyfer Gogledd Iwerddon](#)
- [Amserlenni samplu ffytoplancton ar gyfer Gogledd Iwerddon](#)
- [Adroddiad blynyddol AFBI ffytoplancton 2023](#)
- [Adroddiad blynyddol AFBI biotocsinau 2022](#)

Ffurflen gyflwyno sampl pysgod cregyn a d?r ar gyfer Gogledd Iwerddon

Northern Ireland

PDF

[Gweld Shellfish and water sample submission form for Northern Ireland as PDF\(Open in a new window\)](#) (44.61 KB)

Monitro cregyn bylchog (*Pectinidae*)

O dan Reoliad (EC) 853/2004 sy'n rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir, gellir cynaeafu cregyn bylchog o ardaloedd sydd heb eu ddsbarthu. Gellir caniatáu cynaeafu cregyn bylchog gwyllt os dilynir y rheolaethau yn y rheoliad hwn a sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn ddiogel i'w fwyta.

Cau

I gael manylion unrhyw Hysbysiadau Cau Dros Dro a Hysbysiadau Rhybudd, dylech gysylltu â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol i gael cyngor.

Nid yw'r ffaith nad oes unrhyw wybodaeth ar gael yn golygu bod yr ardal yn rhydd o unrhyw fiotocsinau. Cyfrifoldeb gweithredwr y busnes bwyd yw sicrhau bod eu cynhyrchion yn

cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwirio bod biotocsinau yn is na'r lefelau rheoledig.

Diweddariadau byw

Diweddarwyd ddiwethaf 6 Hydref 2023.

Ardaloedd sydd wedi'u cau ar hyn o bryd oherwydd biotocsinau morol yng Nghymru a Lloegr:

I gael mwy o fanylion am ganlyniadau, ewch i [ganlyniadau biotocsinau a ffytoplacton](#).

Canlyniadau pysgod cregyn – Ffrainc

Mae'n bwysig eich bod chi'n ymwybodol o'r canlyniadau biotocsinau ar gyfer pob ardal rydych chi'n ei chynaeafu i sicrhau bod y cynnyrch yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys dyfroedd Ffrainc.

Mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r [canlyniadau ffytoplacton a chnawd a rhybuddion o ardaloedd cynhyrchu Ffrainc](#).

Ar ôl agor y wefan, mae'r marciau coch yn dangos ardaloedd lle mae'r canlyniadau wedi torri lefelau sbarduno ffytoplacton neu derfynau gweithredu cnawd.

Rydym yn argymhell eich bod chi'n agor y wefan gan ddefnyddio Google Chrome i fanteisio ar y teclyn cyfieithu sydd ar gael.